CYMRU WLEDIG LPIP RURAL WALES

# Esblygiadau yn systemau bwyd yng Nghymru Wledig

## Yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu economi lles



Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn brosiect a ariennir gan UKRI sy'n dod ag academyddion, cynrychiolwyr cymunedol a llunwyr polisi ynghyd i gefnogi datblygiad economi lles yng Nghymru Wledig.

Mae ein gweithgareddau ymchwil ac ymgysylltu treiddgar yn ymateb i un o'r materion pwysicaf yng nghefn gwlad Cymru: sut mae newid ein systemau bwyd. Mae'r ffordd y mae bwyd yn cael ei gynhyrchu, ei ddosbarthu, ei farchnata a'i fwynhau yn effeithio'n sylweddol ar ein hiechyd, ein heconomi a'n hamgylchedd.

Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cyfoes cysylltiedig â bwyd drwy amryfal brosiectau; pob un yn archwilio un o flaenoriaethau neu heriau cefn gwlad Cymru.

Ar ôl ei gwblhau, gellir dod o hyd i gopïau o'r adroddiadau llawn ar ein gwefan, gan gynnwys y data, y dadansoddiad a'r datblygiadau arloesol. Yn ogystal, cyflwynir argymhellion i lunwyr polisi, gyda'r nod o ddatblygu newidiadau cadarnhaol, cynaliadwy i'n cymunedau gwledig, o ran bwyd a lles.





# Ymchwil Ymatebol: Bwyd, Cymunedau a Lles yng Nghymru Wledig

Yr Athro Paul Milbourne a Dr Ellen Hjort

Mae prosiect Bwyd, Cymunedau a Lles yng Nghymru Wledig yn ymchwilio i'r ffordd mae mentrau bwyd yn gweithio i wella lles unigolion a chymunedau yng Nghymru Wledig.

Mae'n archwilio sut mae bwyd yn cael ei ddefnyddio'n gyfannol, yn gynyddol ac yn greadigol i fynd i'r afael â phroblemau cysylltiedig, sef tlodi bwyd, agweddau dietegol ar iechyd gwael ac arwahanrwydd cymdeithasol mewn mannau gwledig. Wrth wneud hyn, mae'r prosiect hefyd yn archwilio'r cyfleoedd a'r heriau a gyfyd wrth weithio ar fwyd, cymuned a lles yng nghefn gwlad.

Mae'r prosiect yn cynnwys pedwar cam ymchwil: Dadansoddiad GIS o hygyrchedd bwyd ar draws cymunedau gwledig yng Nghymru; cyfweliadau â chydlynwyr partneriaethau bwyd lleol a swyddogion polisi awdurdodau lleol; cyfweliadau â sefydliadau a phrosiectau bwyd lleol mewn ardaloedd gwledig; ac ymchwil fanwl ar amgylcheddau bwyd lleol.

Nod y prosiect yw llenwi bylchau yn y wybodaeth am sut y gall grwpiau cymunedol reoli problemau cysylltiedig â bwyd mewn lleoliadau gwledig yng Nghymru ar y cyd â pholisi rhanbarthol.

# Labordy arloesedd lles a bwyd

Yr Athro James Lewis ac Amie Andrews

Datblygodd Labordy Arloesed Cymru Wledig LPIP Rural Wales ar Gynyddu Llesiant Mewn Lle ffocws cryf ar fwyd a chymuned. Daeth â chynrychiolwyr o ysgolion, ffermydd, gwasanaethau iechyd, y trydydd sector, cynghorau lleol, partneriaethau bwyd a llunwyr polisi ynghyd i ddylunio atebion ar gyfer Cymru wledig ar y cyd, lle mae pawb yn cael cyfle i dyfu, coginio a bwyta gyda'i gilydd mewn lleoliadau cynhwysol. Trwy gyfres o weithdai, bu cyfranogwyr yn archwilio realiti tlodi bwyd a hygyrchedd bwyd iach, fforddiadwy, yn nodi'r agweddau a'r rhwystrau allweddol, ac yn gweithio ar y cyd i greu gweledigaeth a rennir ar gyfer y dyfodol — yn ogystal ag arloesiadau ymarferol i helpu i gyflawni'r weledigaeth honno.

Yr arloesedd a ddewiswyd i'w weithredu a'i brofi yw Rhwydwaith Cegin dan Arweiniad Cymunedol.

Y nod yw uno pobl mewn cymunedau gwledig trwy baratoi a rhannu bwyd tymhorol maethlon a gynhyrchir yn gynaliadwy, gan greu cyfleoedd cymdeithasol cynhwysol i leihau unigrwydd, arwahanrwydd a heriau iechyd a dathlu diwylliant bwyd lleol ar yr un pryd.

Y ffocws unigryw yw gweld sut y gall mentoriaid a chogyddion gefnogi ardaloedd gwledig yn benodol ar draws rhanbarth bwrdd iechyd Hywel Dda i ddod â'r gymuned gyfan at ei gilydd; meithrin cydlyniant, defnyddio asedau cymunedol a dathlu diwylliant bwyd lleol. Gwahoddir cyfranogwyr i dreialu'r dull hwn a helpu i werthuso ei effaith. Yna bydd mewnwelediadau a chanlyniadau'r peilot yn cael eu rhannu â chynghorau, llunwyr polisi, a gwneuthurwyr newidiadau eraill er mwyn llywio mentrau bwyd a arweinir gan y gymuned yn y dyfodol.





FOOD-BWYD
CYMRU WLEDIG
LPIP RURAL WALES
ENHANCING WELLBEING IN PLACE
GWELLA LLES YN EI LLE
VISION: GROW, COOK AND EAT TOGETHER
GWELEDIGAETH: CYFLE I DYFU, COGINIO A BWYTA - GYDA'N GILYDD
NHS GIG
SOCIAL CARE GOFAL CYMDEITHASOL
3rd sector 3ydd sector
COMMUNITY RESTAURANT
BWYTY CYMUNEDOL
INTEGRATION
INTEGREIDDIO
INTEGENERATIONAL
PONTIO'R CENEDLAETHAU
COMMUNAL
CYMUNOL
OLDER PEOPLE
POBL HŶN
Local Produce
CYNNYRCH LLEOL
PRIMARY PUBLIC SECTOR
SECTOR GYHOEDDUS
ACCESS TO LAND
MYNEDIAD AT DIR
CLOSER RELATIONSHIPS
PERTHNASAU AGOSACH
ACCESS TO COMMUNAL SPACES/ KITCHENS
MYNEDIAD AT OFODAU CYMUNEDOL/CEGINAU
Kitchen CEGIN
Health Boards
Byrddau Iechyd
Councils
Cynghorau
COMMUNITIES
CYMUNEDAU
COMMUNAL GROWING SPACES
GOFODAU TYFU CYMUNEDOL
REGIONAL ARTISANS
CREFFTWYR RHANBARTHOL
WELLBEING SUPPORT
CEFNOGAETH LLESIANT
SCHOOLS
YSGOLION
WARM SPACES
GOFODAU CYNNES
COMMUNAL TRANSPORT
TRAFNIDIAETH GYMUNEDOL
SUSTAINABLE FUNDING MODELS
MODELAU ARIANNU CYNALIADWY
POLICIES & PROCUREMENT
POLISIAU A CHAFFAEL
ACCESS TO LAND
MYNEDIAD AT DIR
JOBS
SWYDDI
COOPERATION GOVERNMENT
LLYWODRAETH GYDWEITHREDOL
VALUES
GWERTHOEDD
ENTREPRENEURIAL APPROACHES - RAPID SYSTEM CHANGE
DULLIAU ENTREPRENEURAIDD - NEWID SYSTEMAU CYFLYM
NEW MINDSETS
AGWEDDAU NEWYDD
MAKING TIME FOR GOOD FOOD
GWNEUD AMSER AR GYFER BWYD DA
ENTHUSIASM
BRWDFRYDEDD
PREPARING A MEAL AS AN ACT OF LOVE
PARATOI PRYD FEL GWEITHRED GARIADUS
CURIOSITY
CHWILFRYDEDD
RESPECT FOR EARTH
PARCH AR GYFER Y DDAEAR
CONNECTION
CYSYLLTIAD
SUSTAINABILITY
CYNALIADWYEDD




*Wedi'i ddarlunio gan Maia Thomas*

# Parthed Pontio i Sero Net: cefnogi'r sector garddwriaeth yng Nghymru Wledig

**Dr Siobhan Maderson, Rachel Tuckett, a Dr Ruth Stevenson**

Mae cynyddu cynhyrchiant garddwriaethol yn ffactor sy'n ganolog i ehangu economi sylfaenol Cymru, yn ogystal â bod yn fanteisiol mewn nifer o wahanol ffyrdd i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Daeth y Labordy Arloesedd ar Sero net â thyfwyr, cyfanwerthwyr, addysgwyr, cynghorwyr busnes gwledig, cogyddion ac eraill ynghyd i gyd-gynllunio arloesedd i gryfhau galluedd a gwydnwch economaidd sector garddwriaethol Cymru.

Drwy gydol y gweithdai, mynegodd y cyfranogwyr bryderon rheolaidd ynghylch hygyrchedd tir, tai a hyfforddiant i arddwriaethwyr, yn ogystal â heriau ynghylch cyfleusterau trafnidiaeth, seilwaith a phrosesu bwyd Cymru wledig. Roedd cyfranogwyr y gweithdy'n llawn cyffro ynglŷn ag amlygrwydd cynyddol garddwriaeth ym mholisi agenda Cymru dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

Cynhyrchwyd chwe chynnig yn ystod y gweithdai ac roeddent yn archwilio materion amrywiol, gan gynnwys: mentrau rhannu tir cyhoeddus / preifat; cymorth i dyfwyr ar ddechrau eu gyrfaoedd a hyrwyddo garddwriaeth fel gyrfa ddeniadol; datblygu bwyd cyfleus iach, fforddiadwy a dymunol sy'n manteisio ar gynnyrch garddwriaeth Cymru; a chreadigaeth hybiau rhanbarthol i gefnogi tyfwyr i gynhyrchu mwy a sicrhau pris teg am gynnyrch. Yn dilyn adolygiad trylwyr, bydd yr ymyriad a ddewiswyd i'w brofi ymhellach yn cynnwys gwaith datblygu ac ehangu rhwydweithiau rhanbarthol sy'n cysylltu prynwyr a thyfwyr. Y nod yw cryfhau gwydnwch economaidd rhanbarthol a diogelwch bwyd, a chynyddu hyfywedd garddwriaeth fel proffesiwn. Bydd canlyniadau'r prosiect yn cael eu hyrwyddo mewn gwahanol ffyrdd er mwyn sbarduno gwelliannau pellach yn sector economi a bwyd Cymru.

# Menywod mewn arallgyfeirio amaethyddol

**Yr Athro Sara MacBride-Stewart, Dr Lucy Baker, Dr Elen Bonner, a Dr Alison Parken**

Mae menywod yn chwarae rhan bwysig mewn amaethyddiaeth gyfoes ac yn enwedig o ran arallgyfeirio gweithgareddau fferm i sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Fel rhan o'r ymchwil, cynhaliwyd cyfweliadau gyda 29 o fenywod oedd yn weithgar ym maes arallgyfeirio amaethyddol yng Nghymru, gyda rhai ohonynt hefyd yn cynrychioli sefydliadau ffermio. Roedd y gweithgareddau arallgyfeirio a ddiffiniwyd gan y cyfranogwyr eu hunain yn eang, ac yn cynnwys gweithgareddau economaidd ar y ffermydd (e.e. twristiaeth, cysylltiedig â bwyd, a hamdden), ac oddi ar y ffermydd (e.e. gwaith medrus). Prif nod yr arallgyfeirio oedd sicrhau goroesiad economaidd y fferm, oedd yn cynnwys ei chydrannau amaethyddol a busnes, ond hefyd y bobl, yr anifeiliaid a'r natur oedd yn byw yno.

Canolbwyntiodd y dadansoddiad cychwynnol ar effeithiau polisïau, ac ystod o ystyriaethau megis llafur, amser, sgiliau a chyfrifoldebau menywod. Pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen am rwydweithiau cryf a chefnogol, gyda galw am grwpiau arweinyddiaeth a chymorth i helpu i hyrwyddo safbwynt arallgyfeirio ffermio menywod fel 'gwaith a rennir' nid 'gwaith eilradd'. Mae angen cefnogaeth hefyd i ddarparu cyngor busnes wedi'i dargedu'n well at brofiadau a chyfraniadau menywod, a chydnabod yr angen i gydnabod gwahaniaethau rhwng y rhywiau o fewn mathau o fusnesau neu gynlluniau twf.

Cadarnhaodd yr ymchwilwyr gyda'r cyfranogwyr ymchwil, gwneuthurwyr polisïau, a sefydliadau'r trydydd sector yr argymhellion polisi penodol am sut gellid defnyddio rôl menywod mewn arallgyfeirio ffermydd – gan gynnwys ffurfiau cynaliadwy o ffermio – i wella llwybrau, cefnogaeth, a chanlyniadau ar gyfer amrywio ffermydd dros Gymru gyfan:

1. darparu gwell mynediad at gyngor busnes wedi'i deilwra i fenywod mewn ffermio
2. cydnabod cyfraniad menywod a mynd i'r afael â'u heriau penodol (e.e. amser, gofal plant, anghenion hyfforddi)
3. cefnogi polisïau datblygiadol gwledig sy'n helpu menywod i adeiladu a thyfu eu gweithgareddau arallgyfeirio ffermydd.

Mae'r tîm ymchwil wedi'i ofyn gan y cyfranogwyr ymchwil i barhau i holi gwneuthurwyr polisi: 'gan fod menywod yn cynnal cymunedau ffermio, a ydym yn gwneud digon i gynnal y menywod hyn?'

Am fwy o wybodaeth a chopi o'r crynodeb ymchwil ewch i'r wefan **lpip.cymru/cy/our-work/astudiaethau-targedig/menywod-a-diversioli-fferm/**



## Cysylltwch â ni

I gael rhagor o wybodaeth am ymchwil Cymru Wledig LPIP Rural Wales, neu i rannu eich barn eich hun ar bynciau sy'n ymwneud â bwyd a lles, cysylltwch â ni: **lpip@aber.ac.uk**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/This document is available in English.

**www.lpip.cymru**



## Ariannwyd gan

- UKRI Arts and Humanities Research Council
- UKRI Economic and Social Research Council
- UKRI Innovate UK

## Partneriaid Craidd

- 1872 Prifysgol Aberystwyth University
- SGEMA
- Prifysgol Bangor University
- antur cymru enterprise
- Gyda'n Gilydd Dros Newid / Together for Change
- Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
- DEG Datblygiadau Egni Gwledig
- CCRI Countryside and Community Research Institute
- Represent Us Rural
- Centre for Alternative Technology / Canolfan y Dechnoleg Amgen
- Iechyd a Gofal Gwledig Cymru / Rural Health and Care Wales

## Cynhaliwyd gan

- WISERD
- Rural Futures Hub